

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol, 'Ymchwiliad i Oblygiadau Gadael yr Undeb Ewropeaidd i Borthladdoedd Cymru'

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn a chydabyddiaeth y Pwyllgor, fel rhan o'i ystyriaeth ehangach o oblygiadau Brexit, bod porthladdoedd yn bwysig o ran cefnogi economi Cymru.

Mae'r sector porthladdoedd yn gwneud cyfraniad mawr at wireddu'n huchelgais o Gymru unedig, cysylltiedig, cynaliadwy a mwy ffyniannus.

Maen nhw'n ffynhonnell cyfoeth economaidd bwysig, yn darparu llawer o swyddi ac mae ganddyn nhw ran allweddol o ran sicrhau bod Cymru wedi'i chysylltu â marchnadoedd y byd.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos â'r sector ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein porthladdoedd yn gallu parhau i gyfrannu at ffyniant Cymru heddiw ac yfory, yn enwedig yng nghyd-destun y datganoli pellach o fis Ebrill 2018.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n galed i ddeall y bygythiadau a'r cyfleoedd a allai effeithio ar ein gallu i ddiogelu a chryfhau rôl ein porthladdoedd ar ôl inni adael yr UE.

Roedd ein Papur Gwyn, sef Diogelu Dyfodol Cymru, yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer Brexit - gan gynnwys pwysigrwydd allweddol osgoi unrhyw darfu ar ein masnach. Gwnaethom hefyd bwysleisio'r ffaith y byddai unrhyw newidiadau i reolau o safbwynt mudo a/neu dollau yn cael effaith sylweddol ar unwaith ar borthladdoedd Cymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Grŵp Porthladdoedd Cymru a phorthladdoedd unigol yng Nghymru i ddeall y peryglon a'r manteision a ddaw yn sgil Brexit ac i ddatblygu'r polisïau a'r ymyriadau cywir wrth i fwy o wybodaeth bendant ddod i law am drefniadau'r tollau a thariffau.

Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid eraill, fel Llywodraeth Iwerddon, er mwyn asesu goblygiadau Brexit ac ystyried yr heriau a'r cyfleoedd yr ydym ni a hefyd nhw yn eu hwynebu. Cymru yw'r cyswllt strategol rhwng Iwerddon a gweddill y DU a thir mawr Ewrop a bydd diogelu'r cyswllt hwnnw o les i bawb.

Ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, mae Llywodraeth y DU wedi nodi'r trywydd y mae hi'n ei ffafrio o ran symleiddio trefniadau'r tollau ar ôl Brexit ond bydd hynny'n dibynnu ar gael cytundeb yr UE. Byddwn yn ystyried ac yn trafod y manylion ymhellach trwy Bapur Gwyn Llywodraeth y DU pan gyhoeddir hwnnw'n ddiweddarach yr hydref hwn a byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor wrth i bethau ddatblygu.

Fe welwch drosodd fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad.

Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r angen i sicrhau na fydd porthladdoedd Cymru o dan anfantais annheg o ganlyniad i drefniadau ffiniau gwahanol posibl rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon a rhwng Prydain Fawr ac Iwerddon, ac yn ein hysbysu am gynnydd mewn perthynas â'r materion hyn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn llwyr gydnabod yr effaith anghymesur bosib ar Gymru o gael ffin dir 'feddal' rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, a ffin fôr 'galed' rhwng yr ynys a phorthladdoedd tir mawr y DU - yn enwedig porthladd Caergybi.

Ar hyn o bryd, mae dros 70% o'r cargo rhwng Iwerddon, Prydain Fawr a'r UE yn pasio trwy borthladdoedd Cymru. Os na chynhelir archwiliadau tollau ar ynys Iwerddon ond eu bod yn cael eu cynnal ym mhorthladdoedd tir mawr y DU, gallai hynny fod yn sbardun i gludwyr nwyddau symud eu cargo trwy ffin dir Iwerddon ac i'r DU o Ogledd Iwerddon - gan ddefnyddio Lerpwl a/neu'r Alban fel y 'bont dir' yn hytrach na Chymru.

Mae Llywodraeth y DU newydd ddatgan y sefyllfa y byddai'n ei ffafrio o ran trefniadau tollau yn y dyfodol a hefyd¹ o ran y ffin ag Iwerddon². Mae trefniadau tollau, tariffau a'r drefn gyllidol ehangach yn faterion y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn gyfrifol amdany'n nhw ac rydym ni - law yn llaw â phartneriaid allweddol eraill - yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd unrhyw drefniadau ar y ffiniau'n rhoi porthladdoedd Cymru o dan unrhyw anfantais.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU ymgysylltu'n llawn â ni ar fater y tollau er mwyn iddi gael deall effaith ymarferol trefniadau tollau newydd yng Nghymru, hynny o safbwynt y porthladdoedd a'r effaith economaidd ehangach ar fusnesau Cymru.

Goblygiadau ariannol - Dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

¹ <http://www.gov.uk/government/publications/future-customs-arrangements-a-future-partnership-paper>

² <http://www.gov.uk/government/publications/northern-ireland-and-ireland-a-position-paper>

fod Llywodraeth Cymru yn ein hysbysu am gynnydd mewn perthynas â datblygu datrysiad wedi'i arwain gan TG ar gyfer trefniadau tollau'r DU yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Nid ydym yn gwybod eto beth yn union fydd yr amgylchiadau y bydd angen teilwra datrysiadau sy'n seiliedig ar TG ar eu cyfer. Mae angen eglurder felly - o ran y trefniadau pontio a hefyd o ran y trefniadau masnachu â'r UE yn y tymor hir.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n glos â Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod y sefyllfa fel ag y bydd hi yn y dyfodol yn cael ei chrisialu cyn gynted ag y bo modd, a bod porthladdoedd Cymru'n cael eu cefnogi i lunio'r atebion cywir i heriau'r dyfodol.

Goblygiadau ariannol - Dim.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad yr hyn y mae'n rhagweld fydd cost y trefniadau tollau newydd arfaethedig wedi'u harwain gan TG ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd a sut y mae'n disgwyl i'r costau hynny gael eu talu. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am gadarnhad gan Lywodraeth y DU am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer datblygu'r trefniadau tollau hyn a fydd wedi'u harwain gan TG a rhoi'r trefniadau hynny ar waith.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae angen eglurder ynghylch natur y datrysiadau TG y bydd eu hangen cyn y gallwn ragweld mewn unrhyw ffordd ystyrion fanylion y goblygiadau o ran costau. Mae hyn yn cynnwys y goblygiadau i'r pwrs cyhoeddus yn ogystal â'r costau i borthladdoedd preifat.

Byddwn yn parhau i'w gwneud yn glir ein bod yn disgwyl i Lywodraeth y DU ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol a ddaw yn sgil ei phenderfyniadau mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli - fel polisi masnach a threfniadau tollau, gan gynnwys systemau TG newydd.

Goblygiadau ariannol - Ni ragwelir goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth y DU ysgwyddo unrhyw gostau i'r pwrs cyhoeddus o ganlyniad i newidiadau gan Lywodraeth y DU mewn meysydd sydd heb eu datganoli - gan gynnwys trefniadau tollau.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru yn ceisio lliniaru'r risg i fusnesau Cymru yn sgil diffyg parodrwydd drwy weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ymchwilio gyda busnesau Cymru i faint yr her a darparu unrhyw gymorth sydd ei angen i sicrhau eu bod yn elwa ar gynlluniau Gweithredwr Economaidd Awdurdodedig/Masnachwr yr Ymddiriedir Ynddo.

Ymateb: Derbyn

Os defnyddir Gweithredwr Economaidd Awdurdodedig, Masnachwr yr Ymddiriedir Ynddo neu gynlluniau tebyg, rhaid ystyried hynny a'u cyflwyno ar lefel y DU. Rydym yn disgwyl i fusnesau yng Nghymru fanteisio'n llwyr ar gynlluniau o'r fath pe bai Llywodraeth y DU yn eu datblygu.

Wrth inni barhau i gydweithio â'r HMRC, byddwn yn chwilio gyda nhw - gyda chydweithrediad rhanddeiliaid - am y mecanweithiau mwyaf effeithiol - i sicrhau cyn lleied o drafferthion â phosib i Borthladdoedd Cymru a'r atebion gorau i fusnesau Cymru.

Goblygiadau ariannol - Dim

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'n hadroddiad, yn amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â diffyg capasiti ffisegol i ymdrin â gwiriadau ffiniau a thollau newydd ym mhorthladdoedd Cymru, a datblygu cynllun wrth gefn ar gyfer rheoli priffyrdd er mwyn mynd i'r afael â'r tagfeydd posibl yn deillio o oedi mewn porthladdoedd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Diolch i'n hymwneud â'r sector, mae'n glir inni bod y cyfyngiadau o ran diffyg tir ym mhorthladdoedd Cymru iddynt allu delio â threfniadau llai effeithiol ar y ffin yn fater cymhleth ac anodd ei ddatrys.

Byddwn yn parhau i gydweithio â'r porthladdoedd ar y mater hwn ac i roi ystyriaeth lawn iddo ynghyd ag i'r effeithiau posib ar fynediad at dir, wrth benderfynu sut y dylai'r Llywodraeth a'r sector geisio deall, lliniaru ac unioni effeithiau Brexit ar borthladdoedd Cymru

Goblygiadau ariannol - Dim.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r sector, yn llunio cynlluniau wrth gefn manwl ar gyfer porthladdoedd Cymru ar gyfer senarios amrywiol y gallai'r DU eu hwynebu ar ddiwedd cyfnod hysbysiad Erthygl 50. Dylai'r cynlluniau wrth gefn hyn gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Porthladdoedd arfaethedig Llywodraeth Cymru a dylai gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- gweithio gyda'r sector i nodi pa gymorth y gall fod ei angen arnynt i baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd;
- asesiad o faint y cyfyngiadau technegol a seilwaith a'r gofynion y mae porthladdoedd Cymru yn eu hwynebu; a
- darpariaethau ar gyfer senario "dim bargaen".

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Byddwn yn parhau i gydweithio â phorthladdoedd, busnesau a Llywodraeth Cymru i ddeall yn iawn arwyddocâd y cynigion sy'n codi o drafodaethau Llywodraeth y DU ynghylch Brexit, a sicrhau bod y risgiau a'r ymdrechion i'w lliniaru, yn gallu cael eu hystyried a'u rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac amserol.

Yn unol â'r cyngor iddi, mae Llywodraeth y DU wedi esbonio y carai symleiddio trefniadau'r tollau ar ôl Brexit. Bydd hynny'n ddibynnol ar gael cytundeb yr UE. Byddwn yn ystyried ac yn trafod y manylion pan gyhoeddir nhw ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU yn yr Hydref. Fel rhan o'r broses a lle bo angen, byddwn yn ystyried datblygu cynlluniau wrth gefn ar y cyd â'r sector ac â rhanddeiliaid allweddol eraill.

Goblygiadau ariannol - Dim

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

fod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ar fyrder â'r diffyg ymgysylltiad ar borthladdoedd gyda chymheiriaid yn Iwerddon ac aelod-wladwriaethau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn ceisio cyfleoedd i ymgysylltu â hwy sy'n ychwanegol at gyfarfodydd cyffredin, fel gyfarfodydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.

Ymateb: Derbynn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag aelod-wladwriaethau'r UE i ddeall y risgiau a'r cyfleoedd, a bydd yn parhau i wneud hynny.

Y risg pennaf i allu porthladdoedd - ac economi ehangach Cymru - i barhau i weithredu'n llwyddiannus yw'r polisiau tollau a masnachu newydd fydd yn cael eu rhoi ar waith.

Ein blaenoriaeth felly yw gwneud yn siŵr na fydd porthladdoedd Cymru nag economi Cymru'n dioddef oherwydd penderfyniadau Llywodraeth y DU. Trwy drafod ag aelod-wladwriaethau, down i wybod am risgiau a chyfleoedd ychwanegol, wrth inni barhau â'n trafodaethau â Llywodraeth y DU.

Bydd ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Iwerddon yn hynod bwysig o gofio'r berthynas a'r cysylltedd rhwng ein dwy wlad, yn enwedig trwy ein porthladdoedd, ac rwyf am fwrw ymlaen â hyn ar lefel Weinidogol trwy drafodaethau â Shane Ross, y Gweinidog Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd ar lefel swyddogion.

Goblygiadau ariannol - Dim

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran ei dull o ddynodi Parthau Rhydd / Porthladdoedd Rhydd a gwneud gwaith pellach i bennu a allai porthladd, neu borthladdoedd yng Nghymru, elwa yn sgil dynodiad Porthladdoedd Rhydd.

Ymateb: Derbyn

Ein prif flaenoriaeth yw gweithio gyda phorthladdoedd yng Nghymru i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i greu'r trefniadau tollau a thariffau gorau posib a fydd yn gwella ffyniant ac yn sbardun i'n porthladdoedd a'r economi ehangach i dyfu ac yn ysgogi gweithgarwch masnachol ledled Cymru.

Gall parthau masnachu rhydd sy'n manteisio ar amrywiaeth o fanteision cyllidol yn ogystal â thariffau is, fod yn arfau economaidd defnyddiol i wledydd sydd mewn sefyllfa gref i'w cefnogi. Gallai Brexit gynnig cyfle i ystyried potensial eu defnyddio yn y DU ond mae'n fater a gedwir yn ôl.

Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol â'r sector ac â phorthladdoedd unigol ar botensial parthau rhydd ac â Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu'i syniadau.

Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith